

EDWARDS, HUMPHREY (1730 - 1788), meddyg ac apothecari

Enw: Humphrey Edwards
Dyddiad geni: 1730
Dyddiad marw: 1788
Rhiant: Robert Edwards
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: meddyg ac apothecari
Maes gweithgaredd: Meddygaeth
Awdur: Griffith Thomas Roberts

Mab ROBERT EDWARDS, rheithor Llanrug o 1725 i 1733. Merch i Robert Edwards ydoedd Margaret, gwraig y Parch. Nicholas Owen, rheithor Llandyfrydog a mam y [Parch. Nicholas Owen](#), rheithor Mellteyrn o 1799 i 1811 - yr oedd gan y Parch. Robert Edwards gasgliad bychan o lawysgrifau Cymraeg (N.L.W. MSS., Panton 29, 81 *et seq.*); Cymerai Humphrey Edwards ddiddordeb mewn llenyddiaeth Saesneg, a rhoes y Parch. John Ellis, rheithor Llanrug o 1777 i 1792, fenthyg dwy gyfrol o *Lives of the Poets* Johnson iddo ar 2 Ionawr 1782 (Bangor MS. 575). Prif ddiddordeb Humphrey Edwards ydyw iddo hwylio o amgylch y byd fel llawfeddyg, 'ship's surgeon,' ar y 'frigate' *Tamer*, un o'r ddwy long ryfel fach a aeth allan i chwilio Môr y De o dan lywyddiaeth Commodore Byron, taid Byron y bardd, yn y blynyddoedd o 21 Mehefin 1764 i 9 Mai 1766. Y mae y rhai a ddywaid iddo hwylio o dan Anson yn anghywir; 10 oed oedd Edwards y pryd hynny, ac nid oedd y *Tamer* ymhlith llongau y g r hwnnw. Ar fordaith John Byron dywedir i'r morwyr osgoi cael y sgyrfi am flwyddyn gron nes iddynt gyrraedd y Môr Tawel, ond bu'n rhaid arnynt lanio rhai cleifion ar Ynys Tinian, un o ynysoedd bychain y Ladrones, ac yno y bu Peter Evans, un o forwyr y *Tamer*, farw. Ychydig o ffrwyth a gafwyd ar yr ymdrech hon mewn darganfyddiadau, a siomedig oedd y Morlys ar waith Byron. Ymddengys mai yr hyn a dynnodd fwyaf o'u sylw ydoedd taldra anghyffredin trigolion Patagonia, a gwnaeth Byron gryn st r yn ei adroddiad ynghylch hynny gan haeru bod eu pennaeth yn agos i droedfedd yn dalach na James Cumming, un o'r is-swyddogion, ac yr oedd ef dros chwe troedfedd a dwy fodfedd o daldra. Ar ôl dychwelyd i Gymru bu Dr. Edwards yn feddyg yng Nghaernarfon, a cheir cyfeiriadau at ei waith yno yn nyddiaduron y Parch. John Ellis. Bu farw 26 Tachwedd 1788 a chladdwyd ef ym mynwent Llanfihangel yn Llanrug. Ar ei feddfaen cofnodir ei fod yn r amlwg yn ei alwedigaeth ac yn barchus gan ei gydnabod.

Awdur

Griffith Thomas Roberts

Ffynonellau

Clowes, *The Royal Navy. A history from the earliest times to the present* (Llundain 1897-1903), iv, 117 et seq.

An Account of the Voyages Undertaken by the Order of His Present Majesty for Making Discoveries in the Southern Hemisphere. And Successively Performed by Commodore Byron, Captain Wallis, Captain Carteret and Captain Cook in the Dolphin, the Swallow and the Endeavour. Drawn up from the Journals which were kept by the Several Commanders, and from the Papers of Joseph Banks, Esq. (Llundain 1773), i, 1773

A Voyage Round the World by an Officer on Board the Ship Dolphin, commanded by the Honourable Commodore Byron ... By an Officer on board the said ship (Llundain 1767), 1767

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733213](https://www.wikidata.org/wiki/Q20733213)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Evch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

